# Y Pwyllgor Deisebau

## Cofnodion (PET(3)-15-09)

**Dyddiad: Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2009**
**Amser: 09.30 - 10.18**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, y Senedd, y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Val Lloyd AC, Dwyrain Abertawe (Cadeirydd)

Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru

Michael German AC, Dwyrain De Cymru

Bethan Jenkins AC, Gorllewin De Cymru

### Swyddogion

Alun Davidson, Clerc

Naomi Stocks, Clerc

Andrew Minnis, Dirprwy Glerc

Lisa Salkeld, Cynghorydd Cyfreithiol

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

### Eitem 2: Deisebau newydd

**(i)**

**P-03-255 Darpariaeth ar gyfer rhai sydd ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nodi'r ohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**(ii) P-03-262 Academi Heddwch Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf a nodi'r ohebiaeth rhwng y Cadeirydd a'r Prif Weinidog.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Cysylltu â'r deisebydd i roi gwybod iddo bod y Pwyllgor yn bwriadu clywed tystiolaeth mewn cyfarfod yn y dyfodol ar ôl cael ateb gan y Prif Weinidog.

### Eitem 3: Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

**(i)**

**P-03-099 Llwybr ceffylau yn Nhalybont-ar-Wysg**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn pryd fydd y penderfyniad i gynnwys y cynllun yng nghyllideb y flwyddyn nesaf neu beidio yn cael ei wneud.

**(ii) P-03-170 Mencap Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebydd yn rhoi gwybod am ymateb y Gweinidog ac yn gofyn am sylwadau ynghylch a yw'r ymateb yn ymdrin â'r materion a godwyd gan y ddeiseb

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyfle Cyfartal yn gofyn a fyddai'r Pwyllgor hwnnw'n barod i ystyried y materion a godwyd gan y ddeiseb.

**(iii) P-03-172 Adfer Fferi Abertawe-Cork**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog i ofyn am ragor o wybodaeth am y cyllid sy'n angenrheidiol. Bwriedir gofyn yn benodol a oes angen y gwariant ychwanegol yn Abertawe neu yn Cork, ac a yw'r Dirprwy Brif Weinidog yn rhagweld y bydd Llywodraeth Iwerddon yn cyfrannu

Cyflwyno cwestiwn yng Nghynulliad Prydain-Iwerddon yn ceisio barn am ddatblygu'r gwasanaeth.

**(iv) P-03-181 Anemia Dinistriol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybod iddynt am ymateb y Gweinidog ac yn gofyn a ydynt wedi cymryd camau i annog gweithgynhyrchwyr i wneud cais i drwyddedu rhagor o gynhyrchion er mwyn trin anemia dinistriol.

**(v) P-03-188 Uned Gofal Arbennig i Fabanod**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gofyn am wybodaeth fanylach am y trafferthion wrth recriwtio meddygon yn sgil rheolau mewnfudo, gan gynnwys enghreifftiau penodol o'r problemau a wynebir a'r cyflwyniadau a wnaed i Asiantaeth Ffiniau'r DU

Ysgrifennu at Asiantaeth Ffiniau'r DU yn rhoi gwybod iddynt am waith y Pwyllgor Deisebau a:

Gofyn pryd y caiff yr adolygiad o reolau mewnfudo ei gwblhau

Gofyn a fydd y rheolau sy'n effeithio ar recriwtio meddygon o dramor yn cael eu hailystyried

Gwahodd cynrychiolwyr o'r asiantaeth i roi tystiolaeth ar ôl i'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**(vi) P-03-207 Cymorth i'r di-waith ym Mynwy**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Reolwr Rhanbarthol y Ganolfan Byd Gwaith yn y de ddwyrain i roi gwybod iddo am ymateb y deisebydd ac yn gofyn sut y defnyddiwyd y cyllid ychwanegol er budd trigolion Sir Fynwy, gan ofyn hefyd a ellid cymryd camau pellach i wella'r gwasanaeth hwn.

**(vii) P-03-208 Siroedd Hanesyddol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebwyr yn rhoi gwybod iddynt am ymateb y Gweinidog ac yn gofyn iddynt roi rhagor o wybodaeth a fyddai'n dangos

y dylai'r Gweinidog drefnu adolygiad o'r ffiniau.

**(viii) P-03-213/235 Rhowch y gorau i'r cynllun difa moch daear (deisebau'r Secret World Wildlife Rescue a'r RSPCA)**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Cau'r ddwy ddeiseb gan fod Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi ystyried y mater yn llawn

Ysgrifennu at yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn rhoi gwybod iddo bod y ddwy ddeiseb wedi'u cau, gan ofyn i'r Is-bwyllgor nodi deiseb P-03-235 wrth ystyried effaith y difa.

**(ix) P-03-220 Gostyngwch y terfyn cyflymder ar yr A40 ger y Fenni**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Comisiynu cyngor cyfreithiol ar y berthynas rhwng y canllawiau sydd newydd gael eu rhyddhau ynghylch "Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru" a'r materion a godwyd gan y ddeiseb

Ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog yn gofyn, yn sgil ei lythyr ar 16 Mehefin, a yw'n debygol y bydd cyllid ychwanegol ar gael cyn diwedd y flwyddyn.

**(x) P-03-234 Mae ar Gymru angen mwy o goed brodorol**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Gwahodd Coed Cadw a'r Comisiwn Coedwigaeth i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor mewn cyfarfodydd dilynol.

**(xi) P-03-237 Cefn Gwlad Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y deisebydd yn gofyn am ymateb i lythyr y Gweinidog.

**(xii) P-03-238/241 Llygredd ym mornant Porth Tywyn/ Llanelli Star - achubwch ein carthffosydd**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai yn gofyn am eglurhad pellach ar y camau sydd wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gan y ddwy ddeiseb

Ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cynaliadwyedd yn gofyn pa gamau y mae'r Pwyllgor hwnnw yn eu cymryd mewn perthynas â'r mater hwn.

**(xiii) P-03-239 Dysgu Gydol Oes ym Mhrifysgolion Cymru**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru yn rhoi gwybod iddo am y ddeiseb gan ofyn, yn sgil y sylwadau gan y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, sut y caiff arian ei neilltuo ar gyfer dysgu gydol oes

Ysgrifennu at Addysg Uwch Cymru yn gofyn sut y mae prifysgolion yn neilltuo ar gyfer dysgu gydol oes.

**(xiv) P-03-240 Gwelliannau i'r A40 yn Llanddewi Felffre**

Ystyriodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y ddeiseb hon.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ystyried y ddeiseb yn sgil y cyngor cyfreithiol ar y canllawiau sydd newydd gael eu cyhoeddi ynghylch "Gosod Terfynau Cyflymder Lleol yng Nghymru".

**(xv) P-03-256 Mwy o drenau i Abergwaun**

Yn sgil y ffaith bod y Pwyllgor Menter a Dysgu wrthi'n cynnal ymchwiliad i "Seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol, "cytunodd y Pwyllgor Deisebau i ystyried y ddeiseb hon fel eitem ychwanegol ar yr agenda.

**Camau i'w cymryd**

Cytunodd y Pwyllgor i wneud y canlynol:

Ysgrifennu at y Pwyllgor Menter a Dysgu i roi gwybod iddo am y ddeiseb ac yn gofyn i'r Pwyllgor hwnnw ei hystyried fel rhan o'i ymchwiliad i seilwaith rheilffyrdd Cymru.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**